# Tasg 3

**(Craidd, sbardun 3)**

**Gweithgareddau ar gyfer unigolion**

1. Atebwch y cwestiynau hyn.

   a. Beth mae'r bardd wedi ei weld?

   b. Ydy'r bachgen bach yn cael llwyddiant? Pam rydych chi'n dweud hynny?

   c. Beth yw effaith y bachgen bach ar y bardd? Pam rydych chi'n dweud hynny?

   ch. Sut mae'r bardd yn pwysleisio bod y bachgen yma'n ifanc iawn?

   d. Mae ychydig o gyferbynnu yn y gerdd. Pa eiriau sy'n cyferbynnu?

2. Beth am greu cerdd newydd? Gallech chi newid:
   - y lleoliad
   - y cymeriad
   - beth mae'r cymeriad yn ei wneud
   - sut mae'r cymeriad yn effeithio ar y bobl sy'n mynd heibio
   - yr effaith arnoch chi, fel y bardd.

**Gweithgaredd grŵp**

3. Darllenwch y cerddi i'ch gilydd.
   Beth ydych chi'n ei feddwl o gerddi eich partneriaid chi?
   Dywedwch ddau beth da ac awgrymwch un ffordd y gallen nhw eu gwella o bosib.